

Ymateb Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy fel y'u nodir yn y papur gwyn: "Cymru gynaliadwy: dewis gwell ar gyfer dyfodol gwell".

Cwestiwn 1. Beth yw eich barn ynghylch y cynigion ar gyfer dyletswydd newydd i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy fel prif egwyddorion trefniadol rhai sefydliadau penodol Cymru?

1. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n cefnogi'r cynigion. O'i weithredu mewn modd cadarn a chymesur, mae gan y fframwaith llywodraethu a gynigir ar gyfer datblygu cynaliadwy y potensial i sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau strategol gwell yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd canolbwyntio ar brosesau gwneud penderfyniadau strategol yn helpu gyda nod Llywodraeth Cymru o dargedu'r penderfyniadau hynny sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ymddygiad, ac ar yr un pryd osgoi creu biwrocratiaeth ychwanegol.
2. Gallai'r ffocws deul ar 'ba' ganlyniadau a 'sut' y cânt eu cyflawni sicrhau gwerth ychwanegol gwirioneddol os caiff ei ddefnyddio fel dull o weddnewid cyflenwi yn y sector cyhoeddus. Bydd yn ofynnol i amser a gwaith meddwl gael eu buddsoddi yn y gwaith o adnabod canlyniadau ystyrion ar lefel cymunedau ac ar lefel defnyddwyr gwasanaethau. Mae ein gwaith yn dangos bob llawer o'r ffocws ar 'ganlyniadau' yn y sector cyhoeddus mewn gwirionedd yn canolbwyntio ar allbynnau neu ddarpariaeth gwasanaethau. Y ffordd fwyaf tebygol o sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yw trwy sefydlu canlyniadau clir ac yna gweithio'n ôl o'r 'dibenion' hyn, er mwyn canfod y 'modd' o'u cyflawni. Gall yr ymagwedd hon ddarparu her werthfawr i 'fusnes fel arfer' trwy dynnu sylw at agweddau ar weithgareddau presennol y sector cyhoeddus nad ydynt yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar y 'canlyniadau'.
3. Er mwyn sicrhau y bydd 'ffocws clir' ar ganlyniadau'n cydategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol, bydd yn bwysig sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy'n cael eu defnyddio ar gyfer y prosesau gwneud penderfyniadau strategol sy'n pennu'r canlyniadau. Bydd hyn, er enghraifft, yn sicrhau bod 'ystyried yr effeithiau ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor' wedi llywio'n llawn y broses sydd wedi arwain at y canlyniadau cytunedig. Bydd hefyd yn sicrhau bod y broses o gytuno ar y canlyniadau'n gynhwysol. Mae sicrhau bod y dadansoddiad sy'n sylfaen i'r ffocws ar ganlyniadau yn cael ei rannu gan amrywiaeth eang o randdeiliaid yn allweddol, a bydd yn helpu pan fo'r rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Byddai'n ddefnyddiol pe bai canllawiau Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i hyn.
4. Byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ymochel rhag risg y gall lliaws a haenau o ddyletswyddau a gofynion a osodir ar gyrff cyhoeddus hybu ffocws ar broses a gweithgaredd a chynyddu biwrocratiaeth. Byddai ffocws o'r fath yn groes i fwriad datganedig Llywodraeth Cymru. Gellid lleddfu'r risg hon trwy ganfod sut y gellid

defnyddio'r Bil Datblygu Cynaliadwy i leihau a symleiddio'r dyletswyddau a gofynion presennol. Er enghraifft, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn pennu cynaliadwyedd fel un o'r saith "agwedd ar wella" ac i bob diben yn sefydlu datblygu cynaliadwy yn un o saith blaenoriaeth a allai gystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae'n amlwg bod hyn yn anghyson â bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol. (Rydym yn ystyried yr enghraifft hon ymhellach o dan gwestiwn 4.)

5. Rydym hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd eglurder a chysondeb wrth ddefnyddio iaith wrth sicrhau y caiff y ddyletswydd a gynigir ei chyflawni'n llwyddiannus. Yn arbennig, mae potensial i'r defnydd o'r term "lles" greu dryswch. Mae'r Papur Gwyn yn cyfeirio at '...ystyried lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar y cyd, ynghyd â lles cenedlaethau'r dyfodol'. Fodd bynnag, ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru (a'r tu hwnt), fel arfer defnyddir "lles" i ddisgrifio cyflwr corfforol, cymdeithasol a meddyliol pobl. Mae'r potensial i greu dryswch ac amwysedd yn cael ei enghreifftio gan ddogfennau allweddol Llywodraeth Cymru ar iechyd a gofal cymdeithasol, lle defnyddir yr ymadrodd "iechyd a lles" yn rheolaidd. Nid oes unrhyw beth i awgrymu bod y ddealltwriaeth bresennol o iechyd a lles, ymysg gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys byw o fewn terfynau amgylcheddol. Hefyd, mae dogfennau cymharol ddiweddar sydd wedi cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a chan Fyrddau Iechyd Lleol yn defnyddio'r term 'cynaliadwy' wrth gyfeirio at un elfen yn unig o ddatblygu cynaliadwy, sef hyfywedd ariannol.
6. Bydd defnyddio iaith mewn ffordd fwy disgybledig, ar draws pob lefel o'r sector cyhoeddus, yn allweddol i wella dealltwriaeth a chreu sylfaen o wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Bydd angen i ganllawiau hefyd ei gwneud yn glir bod yr 'amgylchedd' yn rhan annatod o 'les' fel y'i diffinnir yn y ddyletswydd a gynigir. Hefyd bydd angen gwneud yn glir beth mae hyn yn ei olygu mewn termau ymarferol ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau strategol gan gyrff cyhoeddus. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae gyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar sut i ddarparu gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol mwyfwy tynn. O dan y ddyletswydd bydd angen iddynt ystyried effeithiau eu penderfyniadau strategol ar genedlaethau'r dyfodol, ar fyw o fewn terfynau amgylcheddol, ac ar y gymdeithas ehangach, yn ogystal ag ar hyfywedd ariannol y sefydliad.

Cwestiwn 2. Beth yw eich barn ynghylch y cynigion mewn perthynas â chorff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy?

7. Dylai'r cynigion i sefydlu corff annibynnol fod o gymorth wrth gynorthwyo â'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Bydd y swyddogaethau a gynigir o ran darparu ffynhonnell arbenigedd, gan gynnwys manteisio ar arbenigedd a phrofiad rhyngwladol, yn bwysig wrth gynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru) i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy.

8. Mae yna gryn dipyn o botensial i waith y corff annibynnol lywio gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac fel arall. Felly rydym yn croesawu'r cynnig y dylai'r corff datblygu cynaliadwy fod â'r gallu i gydweithredu gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. I gyd-fynd â hyn dylid sicrhau bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y gallu i gydweithredu gyda'r corff datblygu cynaliadwy.
9. Mae'r cynigion i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y fframweithiau atebolrwydd a chraffu presennol (gweler cwestiwn 4) yn cydategu'r dull a gynigir ar gyfer y corff datblygu cynaliadwy newydd.
10. Yn ychwanegol at Archwilydd Cyffredinol Cymru, gallai'r corff datblygu cynaliadwy newydd hefyd chwarae rhan wrth gynghori a darparu gwybodaeth i Bwyllgorau Craffu'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cwestiwn 3. Beth yw eich barn ynghylch y bwriad i gyflwyno'r ddyletswydd yn raddol a'i gweithredu, gan gynnwys yr amserlen sydd ynghlwm â sefydlu'r corff annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy?

11. Bydd cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i ganolbwyntio yn ei ymdrechion ar weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith cadarn a chymesur ar gyfer atebolrwydd a chraffu allanol. O gofio'r pwysau ar y sector cyhoeddus, bydd capasiti yn broblem a bydd cyflwyno'r ddyletswydd yn raddol yn cynorthwyo â hyn.
12. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cefnogi sefydlu'r corff datblygu cynaliadwy yn fuan gan y bydd hyn yn galluogi cydweithredu rhwng y ddau sefydliad ac yn hwyluso paratodau ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd.
13. Yn ein hymateb i Gwestiwn 1, nodasom nifer o faterion yn ymwneud â'r defnydd o'r term 'lles' a 'chynaliadwyedd'. Rydym hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn deall goblygiadau ymarferol ystyried mewn modd integredig effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu penderfyniadau strategol. Dylid sefydlu'r corff newydd cyn gynted ag sy'n bosibl, er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r offer y mae eu hangen.

Cwestiwn 4. Beth yw eich barn ynghylch y cynigion i wella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru?

14. Yn gyffredinol, mae'r cynigion yn ymddangos yn ymarferol ac yn debygol o sicrhau bod datblygu cynaliadwy'n dod yn brif egwyddor drefniadol wrth wneud penderfyniadau mewn gwirionedd. Fel mae'r Papur Gwyn yn nodi, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mae'r cyfrifoldeb am graffu allanol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sefydliadau mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn berthnasol iddynt. Felly mae Archwilydd Cyffredinol Cymru eisoes yn archwilio dogfennau llywodraethu allweddol yn y cyrff dan

sylw, felly mae gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i adolygu¹ sut mae sefydliadau wedi sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol yn eu prosesau gwneud penderfyniadau strategol yn ddull effeithlon. Mae hyn yn bwysig, gan fod unrhyw drefniadau i wella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yn debygol o greu costau ychwanegol, ond dylai gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r mecanweithiau sy'n bodoli eisoes leihau'r fath gostau i'r eithaf.

15. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ceisio sicrhau nad yw'r ddyletswydd a osodir arno'n arwain at ffocws diangen o gul, sy'n arwain at ymarferiadau 'ticio blychau' mewn cyrff cyhoeddus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu hybu ffocws ar y ffordd mae prosesau gwneud penderfyniadau strategol wedi defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gytuno ar ganlyniadau, ac wrth benderfynu sut y dylid eu cyflawni. Felly bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ceisio cydategu'r gwaith blynyddol o ystyried cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy gydag ystyriaeth o'r angen am waith cysylltiedig manylach gan ddefnyddio ei bwerau presennol o ran astudiaethau ac astudiaethau gwelliant, gan gynnwys y rheiny a geir yn adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru a chyrff cysylltiedig, gan gynnwys y GIG, ac adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, sy'n berthnasol i gyrff llywodraeth leol. (Er mwyn sicrhau bod y fath ddull integredig gydag astudiaethau'n parhau, gallai fod o gymorth pe bai Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth benodol i ystyried defnyddio'r fath bwerau presennol ochr yn ochr â'r adolygiad blynyddol o'r ffordd mae sefydliadau wedi sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Mae'r cyfeiriad yn y Papur Gwyn at God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru yn briodol. Mae'n gyson â chysyniad prif ffrydio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol i Archwilydd Cyffredinol Cymru nodi, yn y Cod Ymarfer Archwilio, sut y dylid cyflawni'r gwaith o adolygu'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Er mwyn sicrhau y cynhwysir datblygu cynaliadwy yn y Cod byddai'n briodol gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru ei gynnwys yn y fath fodd.
16. Mae angen ystyried sut y caiff cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ei hadolygu mewn cyrff mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt ond nad ydynt yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, megis prifysgolion. Un dull fyddai ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy mewn cyrff nad yw'n eu harchwilio o ran pethau eraill. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb, ond efallai nad dyma'r dull mwyaf effeithlon. Dewis arall fyddai gosod ar yr archwilwyr mae cyrff o'r fath yn eu penodi yr un ddyletswydd adolygu ag sy'n berthnasol i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai hynny'n codi materion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Deddf Cwmniâu 2006 (ac efallai rhai agweddau ar deddfwriaeth yn ymwneud ag elusennau). Byddai hefyd yn creu risg anghysondeb o ran dulliau ar draws

¹ Mae Paragraff 5.6 o'r Papur Gwyn yn cyfeirio at "archwiliad". Er eglurder efallai y bydd o gymorth defnyddio term megis "adolygiad" yn hytrach nag archwiliad gan y gallai'r ail derm gael ei ddrysio gyda rhai swyddogaethau eraill sy'n bodoli eisoes.

sector cyhoeddus Cymru, er y gellid mynd i'r afael â hynny trwy ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gadw at God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran adolygu'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy.

17. Dewis arall fyddai i Archwilydd Cyffredinol Cymru astudio cydymffurfiaeth prifysgolion a cholegau â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy trwy astudiaethau o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 o'r trefniadau a wneir gan gyrff ariannu (CCAUC a Llywodraeth Cymru) i sicrhau'r fath gydymffurfiaeth. Fodd bynnag, byddai hon yn ffordd eithaf anuniongyrchol o'i wneud, a, gan fod astudiaethau o dan Ddeddfau 1998 a 2006 yn ddewisol, nid oes unrhyw sicrwydd y byddent yn cael eu cyflawni. Yn achos Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gellid sicrhau ffordd fwy uniongyrchol o wneud hyn wrth i Lywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gytuno ar raglenni o astudiaethau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy o dan adran 145C o Ddeddf 1998. Unwaith eto, fodd bynnag, mae cytuno ar y fath raglenni'n ddewisol, felly ni fyddai unrhyw sicrwydd y byddent yn cael eu cyflawni.
18. Yn ein hymateb ym mis Gorffennaf 2012 i ymgynghoriad blaenorol Llywodraeth Cymru ar y Bil Datblygu Cynaliadwy, nodasom y dull canlynol ar gyfer craffu allanol, wedi'i seilio ar gynigion Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar brosesau gwneud penderfyniadau strategol. Mewn rhai manau, rydym yn cyfeirio at yr "archwilydd". Ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, bydd hyn yn golygu Archwilydd Cyffredinol Cymru, ond lle caniateir i gyrff benodi eu harchwilwyr eu hunain o hyd, er mwyn sicrhau craffu allanol cyson, awgrymwn y dylai'r ddyletswyddau y cyfeirir atynt fod yn berthnasol i'r fath archwilwyr.
19. Yn ôl ein dealltwriaeth ni, mae'r Llywodraeth yn cynnig y bydd y Bil Datblygu Cynaliadwy yn gosod ar archwilydd corff y mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn gymwys iddo ddyletswydd i gynnal adolygiad lefel uchel ynghylch a yw'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wedi'i chymhwyso yn ei brosesau gwneud penderfyniadau lefel uchel. Bydd penderfyniadau o'r fath yn cynnwys yn benodol gosod ei strategaeth hirdymor, cynllun blynyddol, cyllideb gorfforaethol flynyddol a pholisïau allweddol sy'n llywodraethu'r ffordd mae i fod i ddarparu gwasanaethau neu ddefnyddio adnoddau cyhoeddus fel arall. Byddai adolygiad o'r fath yn cynnwys astudio'r dogfennau eu hunain, gan ategu hynny lle bo angen trwy astudio cofnodion ategol, megis cofnodion ymgysylltu â'r cyhoedd, a chyfweiliadau (neu arolygon) gyda'r staff, defnyddwyr a rhanddeiliaid perthnasol.
20. Rydym yn barnu y byddai'n briodol o safbwynt trefniadau effeithiol ar gyfer craffu allanol i'r Bil osod ddyletswydd ar yr archwilydd i ddarparu adroddiad ar yr adolygiad (adroddiad ar gydymffurfiaeth datblygu cynaliadwy) ochr yn ochr â'i dystysgrif/adroddiad ar y cyfrifon. Rydym hefyd yn barnu y dylai'r adroddiad ar gydymffurfiaeth datblygu cynaliadwy fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran ei gyhoeddi a'i ystyried â'r dystysgrif/adroddiad ar y cyfrifon, ac felly y byddai'n briodol i'r Bil Datblygu Cynaliadwy greu'r fath ofynion. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrrff cysylltiedig, gan gynnwys y GIG, y byddai'r adroddiad ar gydymffurfiaeth datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad

Cenedlaethol. Byddai'r fath ofynion yn sicrhau bod adroddiadau ar gydymffurfiaeth datblygu cynaliadwy ar gael i'w hystyried gan bwyllgorau perthnasol y Cynulliad, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, cyngorau a'u pwyllgorau craffu, a'r cyhoedd.

21. Rydym hefyd yn barnu y dylai'r Bil Datblygu Cynaliadwy osod dyletswydd ar yr archwilydd i ystyried a yw'r adolygiad yn codi pryderon ynghylch cydymffurfiaeth y corff â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy sy'n galw am eu hastudio ymhellach. Gellid gwneud y fath astudiaeth bellach o dan swyddogaethau presennol Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran astudio gwerth am arian (fel y soniwyd ym mharagraff 15 uchod), neu gallai'r ddeddfwriaeth newydd ddarparu dyletswyddau penodol o ran astudio datblygu cynaliadwy. Yn anffodus, nid yw swyddogaethau presennol Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran astudio gwerth am arian yn ymestyn i sefydliadau addysg bellach ac uwch unigol, ar hyn o bryd, ac eithrio trwy gytundeb neu drwy astudio trefniadau gan Lywodraeth Cymru a CCAUC mewn perthynas â'r cyllid maent yn ei roi i'r sefydliadau. Felly byddai'n ddefnyddiol pe bai Bil Datblygu Cynaliadwy yn mynd i'r afael â'r bwlch hwnnw.
22. Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn ceisio, o dro i dro, cyflawni astudiaethau trawsbynciol o faterion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy gyda gwybodaeth o waith o dan baragraffau 19 i 21 uchod, gan ddefnyddio ei bwerau astudio presennol. Er mwyn sicrhau y bydd hyn yn digwydd, byddai'n ddefnyddiol i'r Bil Datblygu Cynaliadwy osod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried a ddylid cyflawni astudiaethau trawsbynciol o ddatblygu cynaliadwy. Rydym yn rhagweld y gallai'r fath astudiaethau gynnwys astudiaethau cyfnodol i grynhoi canlyniadau'r holl waith adolygu ac astudio datblygu cynaliadwy ar draws pob sector.
23. Rydym yn barnu y dylai fod dyletswydd ar archwilydd i sicrhau bod eu holl adroddiadau ar ddatblygu cynaliadwy fod ar gael i'r corff datblygu cynaliadwy newydd er gwybodaeth. Byddai'r fath ddyletswydd yn gwneud tasg y corff newydd o dracio adroddiadau'n haws o lawer ac felly'n arbed amser a chost. (A bod yn fanwl gywir ni fyddai angen hyn pe bai'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiadau ar ddatblygu cynaliadwy ochr yn ochr â chyfrifon ardystiedig cyrff cyhoeddus.)
24. Un ystyriaeth arall yw y gall cynigion y Llywodraeth am ddyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i astudio sut mae sefydliadau wedi sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol ddarparu lle i symleiddio'n sylweddol rhai gweithgareddau adolygu allanol mewn llywodraeth leol. Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswyddau helaeth o ran cynllunio ac adrodd am welliant ar gynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Mae hefyd yn gosod dyletswyddau ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio ac asesu'r gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hynny. Mae Mesur 2009 yn canolbwyntio ar broses cynllunio gwelliant ac atebolrwydd cyhoeddus trwy adrodd. Os yw Llywodraeth Cymru'n cyflwyno dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i astudio i ba raddau mae egwyddorion datblygu cynaliadwy'n cael eu sefydlu ym mhrosesau gwneud

penderfyniadau, gallai olygu bod y gofynion a osodir ar Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Fesur 2009 yn ddiangen, oherwydd y gallai fod yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, trwy'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy newydd, ganolbwyntio ar brosesau gwneud penderfyniadau strategol a chynllunio'n fwy bras. Ni fyddai'r ddyletswydd newydd yn cyfyngu Archwilydd Cyffredinol Cymru i astudiaethau o sefydliadau unigol gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy'n ehangach. Byddai dileu'r gofynion a osodir ar Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Mesur a rhoi yn eu lle gofynion o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy yn golygu y gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru ganolbwyntio'n briodol ar y canlyniadau gofodol a chymunedol cydweithredol strategol, yn hytrach na materion proses sefydliadau unigol.

25. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn y cyfnod cyn cychwyn i geisio ymgysylltu ag ystod o brofiad ac arbenigedd, wrth lunio fframwaith ar gyfer atebolrwydd a chraffu allanol, sy'n gymesur ac yn addas i'r diben. Mae gwaith adrodd yn un o elfennau allweddol atebolrwydd a chraffu allanol. Mae ein gwaith ymgysylltu ag amrywiaeth o gyrff proffesiynol wedi awgrymu bod nifer o fentrau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cynnig potensial i symleiddio ac i wella effeithiolrwydd gwaith adrodd. Mae'r rhain yn cynnwys Adrodd Cysylltiedig gan Gyfrifyddu ar gyfer Cynaliadwyedd, y Fenter Adrodd Fyd-eang a gwaith y Pwyllgor Adrodd Rhyngwladol Integredig.

Cwestiwn 5. Rydym wedi gofyn pedwar cwestiwn penodol. A oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy? (Er enghraifft, o ran gweithredu'r cynigion.) Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer cyflwyno eich sylwadau.

26. Mae cynigion i ddefnyddio'r Bil Datblygu Cynaliadwy i roi sylfaen statudol i gynllunio integredig sengl yn enghraifft ymarferol o geisio integreiddio a symleiddio. Mae'n cryfhau rôl cynllunio integredig sengl fel mecanwaith i gyflawni datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion presennol ar gyfer cynllunio integredig sengl yn cyfeirio at yr angen i fyw o fewn terfynau amgylcheddol. Nid yw'r Cynlluniau Integredig Sengl presennol wedi datblygu eto'n fecanweithiau effeithiol a all: gynnal 'ystyried yr effeithiau ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru...[fel y]...caiff penderfyniadau eu llywio gan werthfawrogiad o'r effeithiau tebygol ar bob un a'r integreiddio rhyngddynt'.
27. Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad i'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn y Papur Gwyn, bydd angen i'r cynigion ar gyfer Cynllunio Integredig Sengl ystyried sut i wella ansawdd yr ymgysylltu rhwng cyrff cyhoeddus, y cyhoedd, cymunedau a'r trydydd sector. Mae nifer o'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud ag annog y rheiny y bydd effaith arnynt i gyfranogi, gan weithio gyda sefydliadau partner perthnasol a galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r angen i fod yn gynhwysol a grymuso pobl a'u cymunedau yn un o

egwyddorion sylfaenol datblygu cynaliadwy sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol. Nid yw'n glir sut mae'r cynigion presennol ar gyfer Cynllunio Integredig Sengl yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn i gynhwysiant.

28. Dyma rai enghreifftiau o'r ffyrdd y bydd angen ail-lunio'r fframwaith ar gyfer creu polisi a darparu gwasanaethau yn y sector cyhoeddus er mwyn cynorthwyo â llywodraethu effeithiol er datblygu cynaliadwy. Mae defnyddio'r Bil Datblygu Cynaliadwy i roi sylfaen statudol i Gynllunio Integredig Sengl yn darparu cyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn a rhai tebyg.
29. Mae'r enghreifftiau hyn hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r amser cyn cychwyn y ddyletswydd datblygu cynaliadwy i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd. O gofio'r heriau mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu, bydd angen i feithrin consensws a datrys gwrthdaro fod yn un o brif ffocysau'r gwaith hwn.
30. Mae angen egluro ystyr meddwl tymor hir. Tair i bum mlynedd yw amserlen Cynllunio Integredig Sengl. Gall hyn fod yn briodol ar gyfer gwaith cyflenwi sy'n canolbwyntio ar wasanaethau, ond nid yw'n amserlen briodol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol mae Cymru'n eu hwynebu. Fel arfer mae gan gynllunio cymunedol gyfnod cynllunio o ugain mlynedd.
31. O gofio'r rhan ganolog mae pennu cyllidebau a chaffael yn ei chwarae wrth gyflawni polisiau, gwasanaethau a swyddogaethau yn y sector cyhoeddus, byddai'r ddyletswydd yn fwy effeithiol wrth gynorthwyo â bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol pe bai cyfeiriadau penodol ar y meysydd allweddol hyn.